**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Newid yn yr Hinsawdd a Natur

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 2 Mai 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd H Lawson (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | M H Jones | S E Keeton |
| M W Locke | B J Rowlands | W G Thomas |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| David Hopkins | Aelod y Cabinet – Gwasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol |
| Andrea Lewis | Aelod y Cabinet - Trawsnewid Gwasanaethau |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |
| Mark Barrow | Rheolwr y Cerbydlu Priffyrdd a Thrafnidiaeth |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Rachel Lewis | Rheolwr Prosiect y Gyfarwyddiaeth |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C M J Evans
Hefyd yn Bresennol: A H Stevens

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2023 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Diweddariad ar Newid yn yr Hinsawdd

Mynychodd Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau, Mark Barrow, Rheolwr y Cerbydlu a Geoff Bacon, Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel ar y mater hwn ac i ateb cwestiynau.

Pwyntiau Trafod:

- Clywodd y panel fod y cyngor yn wynebu nifer o heriau mewn perthynas â Mabwysiadu Cerbydau Gwyrdd. Mae gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU dargedau tynn y mae'n rhaid eu cyrraedd o ran cerbydau allyriadau isel.
- Mae'r panel yn falch o glywed bod Cyngor Abertawe ymhell o flaen cynghorau eraill yng Nghymru o ran nifer y cerbydau trydan batri/hybrid.
- Dywedodd Aelod y Cabinet nad oes gan y cyngor y gyllideb i ymgymryd â llawer o bethau mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd ac adfer natur, gan gynnwys mabwysiadu cerbydau gwyrdd, a bydd yn rhaid iddo lobïo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am yr adnoddau y mae eu hangen arno i gyrraedd y targedau.
- Holodd y panel ai glasu'r cerbydlu oedd y defnydd gorau o unrhyw arian sydd ar gael ac a yw hyn wedi'i fodelu. Clywyd o ran effeithlonrwydd, nid yw'r adran am wneud economïau ffug ond bydd yn newid i drydan lle y gall wneud hynny.
- Mewn perthynas â lleihau maint cerbydau, roedd y Panel eisiau gwybod a fyddai hyn yn aneffeithlon neu'n anghynhyrchiol. Clywyd bod holl gerbydau'r cyngor yn defnyddio telemateg, sydd wedi gwella effeithlonrwydd. Hefyd, bydd faniau llai yn lleihau'r cyfle i'w gorlwytho a byddant yn gallu cario popeth sydd ei angen arnynt.
- Holodd y panel o ble mae ynni'r cyngor yn dod oherwydd bod angen defnyddio ynni adnewyddadwy i wefru cerbydau trydan. Mae'r cyngor yn defnyddio ffynonellau sydd 100% yn adnewyddadwy ar gyfer ei drydan felly mae 100% o'i ynni'n wyrdd ar hyn o bryd, ond ni ellir gwarantu hynny wrth symud ymlaen.
- Holodd y panel a oes gan y cyngor bolisi ailgylchu batris ar waith. Hysbysir nad oes un ar waith ar hyn o bryd.
- Trafododd y panel y ffaith ei fod yn well cadw cerbydau cyfredol cyhyd â phosib yn hytrach na dim ond eu disodli â rhai trydan ac y gall gadw llygad ar farchnadoedd newydd ar yr un pryd.
- Mynegodd y panel bryder ynghylch sut mae rhywfaint o ynni adnewyddadwy yn cael ei greu, er enghraifft tyrbinau gwynt, ac os difrodir rhannau eraill o'r amgylchedd i sicrhau canlyniadau adnewyddadwy. Mae ffermydd solar mawr, tyrbinau gwynt mawr etc., y tu hwnt i reolaeth y cyngor.
- Holodd y panel pa mor gostus yw cerbydau trydan o'u cymharu â cherbydau diesel. Rhoddwyd gwybod bod cerbydau masnachol ysgafnach 25-30% yn ddrytach, a bod cerbydau nwyddau trwm 100-150% yn ddrytach. Y gobaith yw y bydd cost cerbydau'n gostwng trwy arbedion maint.
- Roedd y panel eisiau gwybod a yw pwysau cerbydau yn rhywbeth y mae angen ei ystyried o ran ffyrdd. Clywyd bod cerbydau trydan yn drymach a bydd hyn yn effeithio ar y rhwydwaith ffyrdd, meysydd parcio a phontydd etc., yn y tymor hwy wrth i fwy o bobl drosglwyddo i gerbydau trydan.

- Mae'r adroddiad yn cynnig bod y Panel yn derbyn diweddariad blynyddol ar Newid yn yr Hinsawdd yn y dyfodol.

Camau Gweithredu:

- Ychwanegu'r wybodaeth ddiweddaraf am newid yn yr hinsawdd at raglen waith y dyfodol ym mis Mai/Mehefin 2024.

## 6 Cyflawniad yn Ymrwymiadau Polisi Corfforaethol / Amcanion / Erbyn Blaenoriaethau

Roedd Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau, David Hopkins, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol a Geoff Bacon yn bresennol ar gyfer yr eitem hon a rhoddodd wybod i'r Panel fod hwn yn faes enfawr sy'n cynnwys nifer o bortffolios.

Clywyd bod yr adroddiad yn rhoi rhai enghreifftiau o weithgareddau penodol i ddangos camau gweithredu wrth symud ymlaen. Mae'r cyngor yn ceisio gwneud cymaint ag y gall o ran datblygiad, datblygu polisïau, gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol, gwneud rhai gweithgareddau cynnar a chanlyniadau cynnar lle mae hynny'n bosib gydag adnoddau cyfyngedig ac mewn hinsawdd ariannol sy'n gwaethygu.

## 7 Adolygiad y Panel o'r flwyddyn 2022-23

Adolygodd Aelodau'r Panel eu blwyddyn ar y Panel Newid yn yr Hinsawdd a Natur a gwnaethant y sylwadau canlynol:

- Mae'r panel wedi gwneud gwaith gwerthfawr er bod cyllid bob amser yn broblem. Gobeithir y gall y Panel barhau â'r gwaith hwn yn y dyfodol.
- Cyllid - nid yw gorfod meddwl mwy am sut rydym yn gwario arian yn beth negyddol.
- Pwnc posib ar gyfer cynllun gwaith yn y dyfodol - sut mae'r broses gynllunio'n gweithio gyda bioamrywiaeth a sut rydym yn annog pobl i weithio gyda natur. Byddai rhestr wirio/pecyn cymorth ar fioamrywiaeth y gall pobl edrych arno i weld a ydynt wedi ystyried gwahanol agweddau ar natur, bioamrywiaeth etc., yn syniad da.
- Pethau cadarnhaol a wnaed o fewn y Panel.
- Mae'n hanfodol i'r Panel edrych ar gynllunio.
- Gwaredu ar fatris - efallai yn werth trafod sut y gallwn lobïo Llywodraeth Cymru am y pwnc hwn.
- SDCau – syniad gwych ond mae rhai arferion SDCau yn wael. Mae angen i ni edrych ar hyn a sut y gallwn sicrhau ei fod yn gweithio. Argymhellwyd bod Aelodau'r Panel yn gwneud hyfforddiant SDCau.

Camau Gweithredu:

- Ychwanegu at raglen waith y dyfodol – Cynllunio: trafodaeth ar sut i annog pobl i edrych ar fioamrywiaeth o fewn ceisiadau cynllunio.
- Diweddariad ar waredu batris i'w gynnwys yn y diweddariad nesaf i'r Panel ar Newid yn yr Hinsawdd.

- Diweddariad ar SDCau i'w gynnwys yn y diweddariad nesaf i'r Panel ar Reoli Perygl Llifogydd Lleol.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50 am